# SL(5)757 – Rheoliadau Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Amrywiol) 2021

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Amrywiol) 2021 ("y Rheoliadau") yn gwneud diwygiadau:

- sy'n ganlyniadol i'r diwygiadau a wnaed gan Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") i ddarpariaethau yn Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972"); neu
- sy'n rhoi effaith i ddarpariaethau yn adran 47 o Ddeddf 2021 sy'n ymwneud â phresenoldeb o bell.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â faint o amser y mae'n ofynnol i rai dogfennau awdurdodau lleol fod yn hygyrch yn electronig o dan Reoliadau Cyfarfodydd Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) 2020 (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020").

I grynhoi, mae'r Rheoliadau yn diwygio:

- Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol yn ystyried adroddiadau sy'n cael eu llunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru er budd y cyhoedd. Mae'r diwygiadau'n darparu nad yw pwerau awdurdodau lleol i eithrio eitemau rhag cael eu cyhoeddi neu eu harchwilio'n electronig neu rhag hawliau mynediad yn gymwys i'r adroddiadau hynny. Maent hefyd yn darparu ar gyfer rhoi hysbysiadau o gyfarfodydd awdurdodau lleol i ystyried yr adroddiadau hynny i adlewyrchu'r gofynion i hysbysiadau gael eu rhoi'n electronig ac i adlewyrchu y gellir cynnal cyfarfodydd drwy ddulliau o bell.
- Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009, sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol yn ystyried adroddiadau budd y cyhoedd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch endidau sy'n gysylltiedig â'r awdurdodau hynny. Effaith y diwygiadau yw nad yw pwerau awdurdodau lleol i eithrio eitemau rhag cael eu cyhoeddi neu eu harchwilio'n electronig neu rhag hawliau mynediad yn gymwys i adroddiadau budd y cyhoedd o'r fath.
- Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013 i hepgor adran 56 a fewnosododd is-adran (1ZA) yn adran 232 o Ddeddf 1972, yn ymwneud â chynghorau cymuned yn rhoi hysbysiadau am gyfarfodydd. Mae darpariaeth a wnaed yn Atodlen 4 i Ddeddf 2021 yn hepgor yr is-adran honno.
- Deddf 2021 i ddarparu bod dogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol y mae'n ofynnol eu cyhoeddi'n electronig yn cael eu trin fel dogfennau sy'n

ofynnol yn ôl y gyfraith i fod yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio at ddibenion paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Difenwi 1996.

- Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 i roi effaith lawn i ddarpariaethau Deddf 2021 sy'n ymwneud â phresenoldeb o bell mewn cyfarfodydd a rhoi hysbysiadau electronig drwy wneud darpariaeth ar gyfer hysbysiadau a gwysion i gyfarfodydd i'w rhoi yn electronig ac ar gyfer presenoldeb o bell.
- Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001. Mae'r Rheoliadau hynny'n cymhwyso darpariaethau Rhan 5A o Ddeddf 1972 i gyfarfodydd pwyllgorau safonau awdurdodau lleol, gydag addasiadau. Mae'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau hynny yn sicrhau bod y Rheoliadau hynny'n adlewyrchu'r newidiadau perthnasol a wnaed i ofynion Rhan 5A o Ddeddf 1972 gan Atodlen 4 i Ddeddf 2021.
- Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005 a Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Trafodion Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau Trwyddedu) (Trwyddedau Mangreoedd a Datganiadau Dros Dro) (Cymru a Lloegr) 2007 i wneud y diwygiadau a wnaed i Ran 5A o Ddeddf 1972 sy'n ymwneud â hysbysiadau am wrandawiadau yn gymwys i wrandawiadau pwyllgorau trwyddedu awdurdodau lleol.
- Rheoliadau 2020 er mwyn:
    - nodi cyfnod o chwe blynedd pan fydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod dogfennau penodol yn parhau i fod yn hygyrch i'r cyhoedd. Mae'r dogfennau hyn yn ymwneud â chyfarfodydd a gynhaliwyd, a phenderfyniadau gweithredol a wnaed, rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021 a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth dros dro o dan Reoliadau 2020, a
    - gwneud darpariaeth drosiannol yn ymwneud â hysbysiadau neu ddogfennau eraill a gyhoeddwyd neu a anfonwyd cyn 1 Mai 2021 mewn perthynas â chyfarfodydd neu wrandawiadau a gynhaliwyd ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(iv) – ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn.**

Mae rheoliadau 10 ac 11 yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau neu ddogfennau a gyhoeddwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a 30 Ebrill 2021 aros yn hygyrch yn electronig am gyfnod

o chwe blynedd. Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau ddod i rym tan 1 Mai 2021. Felly mae'n ymddangos bod rheoliadau 10 ac 11 yn newid mewn ffordd ôl-weithredol y gyfraith sy'n ymwneud â dogfennau sy’n cael eu cyhoeddi cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Nid yw'r darpariaethau galluogi ar gyfer y Rheoliadau hyn yn Neddf 2021 a Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu awdurdod penodol i'r Rheoliadau gael effaith ôl-weithredol.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

> *Ni chafwyd ymgynghoriad ffurfiol gan fod y Rheoliadau'n gwneud diwygiadau technegol canlyniadol.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r pwynt adrodd technegol yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**10 Mawrth 2021**